

ADRODDIAD I'R CABINET

Ionawr 13, 2015

Aelod Cabinet: Cyngorydd Gareth Thomas

Pwnc: Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Y Gader

Swyddog Cyswllt: Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol

Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig i gau ysgolion dalgylch Y Gader a sefydlu un ysgol ddalgylch ddilynol cymunedol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy, Llanelltyd a Friog. Bydd yr ysgol yn gwasanaethu holl ddisgyblion 3-16 oed yn y dalgylch. Bydd angen i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, a phenderfynu p'unai i barhau â'r cynnig a'i pheidio, h.y. cyhoeddi rhybuddion statudol a'i pheidio.

Barn yr aelodau lleol

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cael penderfyniad Cabinet y Cyngor i barhau neu beidio ar y cynnig i ad-drefnu darpariaeth addysg yn nalgylch Y Gader, Dolgellau. Gofynnir i'r Cabinet:
 - i. Ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol a'r ymateb i'r sylwadau hynny
 - ii. Penderfynu parhau â'r cynnig yn ei ffurf bresennol ai peidio
 - iii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol pe bai'r penderfyniad i barhau
- 1.2 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu Strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2012, penderfynodd y Cabinet ar 'Gynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Addysg' wedi ei sylfaenu ar y strategaeth hon.
- 1.3 Yn unol â Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd cafwyd trafodaethau ynglŷn â darpariaeth addysg yn nalgylch Y Gader, Dolgellau ers 2010.
- 1.4 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cyngor Llawn Gorffennaf 14, 2011 ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Gader. Mae'r adroddiad yn gyd-destun pwysig i'r adroddiad yma a cheir copi, yn ogystal â chopiau adroddiadau a dogfennau perthnasol eraill ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion a www.gwynedd.gov.uk/ycabinet.
- 1.5 Cyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y [Cabinet ar Orffennaf 16, 2013](#). Yn yr adroddiad hwnnw, adroddwyd ar rwystrau gwireddu cynllun yn un rhan o'r dalgylch oherwydd problemau technegol datblygu safle ym Mrithdir ac oblygiadau cost hynny. Yn wyneb y wybodaeth hon a'r angen i ail ystyried, mabwysiadwyd gweledigaeth amlinellol ar gyfer y dalgylch.
- 1.6 Hanfod y weledigaeth amlinellol fyddai anelu at sicrhau'r deilliannau canlynol;
 - Yr un cyfle a phrofiadau i holl ddisgyblion y dalgylch
 - Mwy o sefydlogrwydd ar draws yr holl ddalgylch
 - Gwell dilyniant ar draws yr ystod oedran

- Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff a mwy o gyfleoedd o ran datblygiad proffesiynol
- Cyfleoedd ehangach i gydlynu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig cefnogi teuluoedd
- Cryfhau'r ddarpariaeth addysg ar draws y dalgylch gan osod y sylfeini ar gyfer cydweithio, cydgyllunio a chyd-ddatblygu i'r dyfodol

Mae dyhead i sicrhau darpariaeth addysg gadarn a chynaliadwy yn y dalgylch cyfan, a hynny ar draws yr holl sectorau. Bydd hyn yn golygu ystyriaeth i resymoli nifer, natur a statws yr ysgolion mewn rhai rhannau o'r dalgylch. O wireddu'r weledigaeth yn llawn golyga hyn y bydd modd cryfhau'r ddarpariaeth addysg yn nalgylch Y Gader.

- 1.7. Yn [Rhagfyr 2013](#) cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet lle cymeradwywyd edrych ar y dalgylch yn ei gyfanrwydd, yn unol â'r argymhellion isod:
- Cadarnhau ehangu'r gwaith i alluogi llunio ystod o fodolau fyddai'n cyfarch y dalgylch yn ei gyfanrwydd, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion penodol ar gyfer ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i'r Cabinet.*
 - Awdurdod i gynnal asesiad er adnabod a mesur yr angen yn y dalgylch ar gyfer darpariaeth addysg o gategori a dynodiad penodol fel rhan ac i gyfarch anghenion y broses o adnabod argymhellion yn unol ag i. uchod.*
 - I ystyried oblygiadau cyllidol posib a'r opsiynau i gyfarch yr oblygiadau hynny, ac yn sgil hynny gwarantu fod y Cabinet yn cynnwys unrhyw ofynion gweddilliol i wireddu'r cynllun fel rhan o adolygiad y cynllun rheoli asedau.*
 - Gan fod Ysgolion Gwirfoddol Eglwysig o fewn cwmpas y broses, dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Addysg i benderfynu ar gynnal rhag ymgynghoriad yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 gyda'r Eglwys petai hynny'n ofynnol cyn cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet gyda'r opsiwn a ffefrir i ofyn caniatâd cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol arno*
- 1.8. Ym [Medi 2014](#) cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet lle cymeradwywyd yr argymhellion:
- I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017.*
 - I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Ysgol Dalgylch Dilydol 3-16 cymunedol ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog, ar 1 Medi 2017.*
- 1.9. Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Y Gader yn ystod Ebrill 2010 a chynhaliwyd 7 cyfarfod. Roedd cynrychiolwyr o bob ysgol yno - pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant llywodraethwyr. Rhoddwyd gwahoddiad yn ogystal i'r Aelodau Lleol ac i gynrychiolaeth o'r Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Bangor) a chynrychiolydd o Goleg Llandrillo Menai.
- 1.10. Derbyniodd a thrafododd y panel ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys ystadegau ysgolion, cefndir ariannol, gwybodaeth am ddatblygiadau ar lefel genedlaethol (gan gynnwys canllawiau'r Llywodraeth ar ymdrin â chynigion ad-drefnu ysgolion) a rheoliadau newydd ar sefydlu patrymau cyd-weithio/ffederasiwn rhwng ysgolion.
- 1.11. Lluniwyd rhestr hir o opsiynau posib ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn yr ardal - roedd yn cynnwys amrywiadau o'r canlynol:
- Datblygu modelau cydweithio
 - Modelau o ysgolion ardal wledig (un neu aml-safle)

- Ysgol Ddilynol (gelwir hefyd yn Gymuned Ddysgu neu Ysgol Gydol Oes)

1.12. Cynhaliwyd y cyfarfod PAD mwyaf diweddar ar yr 21^{ain} o Fai 2014 ac yno cyflwynwyd gwaith cefndirol yn seiliedig ar y dalgylch cyfan. Roedd hyn yn cynnwys rhestr hir o fodolau yn seiliedig ar y dalgylch, y ffordd ymlaen arfaethedig (y cyfeiriad ar hyn o bryd) ac eglurhad o'r prosesau statudol.

1.13. Cyd-destun pwysig arall yw'r buddsoddiad cyfalaf ar gael i'r dalgylch. Ers cychwyn trafodaethau yn y dalgylch, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu rhaglen fuddsoddi cyfalaf o'r enw 'Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain'. Trwy'r rhaglen yma mae gan y Cyngor £3.6 miliwn ar gyfer dalgylch Y Gader wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor. Bydd angen cyflwyno achosion busnes cynhwysfawr i ddenu'r arian. Mae angen ystyriaeth fanwl i'r defnydd gorau o'r buddsoddiad ac fel y trafodwyd yn adroddiad Cabinet Rhagfyr 2013, gan fod y dalgylch cyfan yn cael ei drafod bydd unrhyw anghenion ariannol ychwanegol yn cael eu cynnwys fel rhan o adolygiad y cynllun rheoli asedau.

2. CEFNDIR – DEWIS MODEL FFAFRIEDIG

2.1 Trafodwyd nifer fawr o fodolau cyn i'r rhestr hir gael ei greu. Roedd yr opsiynau hynny yn seiliedig ar y ffordd bosibl ymlaen gan ystyried pob un o'r 10 ysgol yn y dalgylch. Roedd hyn yn cwmpasu:

- Datblygu modelau o gydweithio/ffedereiddio rhwng rhai neu holl ysgolion presennol heb gau ysgolion
- Datblygu modelau o gydweithio/ffedereiddio rhwng rhai ysgolion presennol yn dilyn cau rhai ysgolion
- Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf nac gydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
- Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf, a sefydlu gydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
- Cau rhai ysgolion cynradd a sefydlu ysgolion ardal yn dilyn buddsoddiad cyfalaf
- Cau rhai ysgolion cynradd gwledig a sefydlu ysgolion ardal aml-safle yn dilyn buddsoddiad cyfalaf
- Uwchraddio Cynradd Dolgellau gyda buddsoddiad cyfalaf i greu canolbwynt addysgol i addysg gynradd yn y dalgylch
- Sefydlu un ysgol i ddisgyblion cynradd y dalgylch cyfan ar un safle, safle ysgol bresennol neu safle newydd
- Sefydlu un ysgol ddilynol 3-16 ar un safle i holl ddisgyblion y dalgylch
- Sefydlu ysgol ddilynol ar safleoedd presennol Y Gader a Chynradd Dolgellau
- Sefydlu ysgol ddilynol ar fwy nag un safle
- Sefydlu ysgol ddilynol i'r dalgylch cyfan ar nifer o safleoedd

Mae gan lawer o'r rhain nifer o amrywiadau gwahanol yn dibynnu ar ba ysgolion a safleoedd sydd yn cael eu dewis.

2.2 Gwnaethpwyd gwaith ymchwil cefndirol a darganfuwyd mai'r safleoedd dan ystyriaeth wrth greu'r rhestr hir oedd safleoedd presennol Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Ieuan Gwynedd yn Rhydymain, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Y Gader, Ysgol Llanelltyd, ac Ysgol Friog.

2.3 Yn seiliedig ar y safleoedd yma, crëwyd y rhestr hir o opsiynau. Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, roedd y model 'Gwneud Dim' yn cael ei gynnwys at ddiben cymharu:

- **Model 1:** Gwneud dim - Parhau gyda'r '*status quo*' sef un Ysgol Uwchradd (Y Gader) a 9 Ysgol Gynradd. Dim newid i strwythur, lleoliad, dynodiad, rheolaeth nac dalgylchoedd yr ysgolion presennol.
- **Model 2:** "*Collaboration trust*" rhwng Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Aml-safle yn Friog a Llanelltyd ac Ysgol Aml-safle yn Rhydymain a Dinas Mawddwy
- **Model 3:** Rhwydwaith Cydweithio rhwng ysgolion Clogau, Friog, Ganllwyd, Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy, Cynradd Dolgellau ac Y Gader


- **Model 4:** Ysgol Ddilyinol yn Nhref Dolgellau, Ysgol Aml-safle yn Friog a Llanelltyd, Ysgol Aml-safle yn Rhydymain a Dinas Mawddwy
- **Model 5:** Ffedereiddio'r 3 Ysgol ym Model 4 (Ysgol Ddilyinol yn Nhref Dolgellau, Ysgol Aml-safle yn Friog a Llanelltyd, Ysgol Aml-safle yn Rhydymain a Dinas Mawddwy)
- **Model 6:** Ysgol Ddilyinol yn Nhref Dolgellau ac un Ysgol Aml-safle wledig ar safleoedd yn Friog, Llanelltyd, Rhydymain a Dinas Mawddwy – Ffedereiddio'r 2 Ysgol
- **Model 7:** Parhau gydag Ysgol Gynradd Dolgellau, a chreu Ysgol Ddilyinol 3-16 oed dalgylch (ar safleoedd presennol ysgolion y Gader, Friog, Llanelltyd, Rhydymain a Dinas Mawddwy gyda dewis i ddisgyblion Llanfachreth fynychu ysgol Gynradd Dolgellau neu'r Ysgol Ddilyinol)
- **Model 8:** Ysgol Ddilyinol Dalgylchol ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Friog, Llanelltyd, Rhydymain a Dinas Mawddwy

2.4 Gwerthuswyd modelau'r rhestr hir wrth grynhai prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol. Defnyddiwyd ffactorau'r strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd', ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Y Gader a ffactorau perthnasol eraill.

2.5 Adroddwyd hyn i'r Cabinet ym Medi 2014 lle cymeradwywyd yr argymhellion i gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar fodel 8, sef i gau ysgolion y dalgylch a sefydlu Ysgol Ddalgylch Ddilyinol 3-16 cymunedol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog, ar 1 Medi 2017.

3. Y CYNNIG

3.1 Mae'r cynnig hwn yn golygu y bydd deg ysgol yn cau gan ddatblygu un ysgol newydd i'r dalgylch.



3.2 Golyga hyn cau 10 Ysgol:


- Ysgol Y Gader
- Ysgol Gynradd Dolgellau
- Ysgol Clogau
- Ysgol Brithdir
- Ysgol Dinas Mawddwy
- Ysgol Ganllwyd
- Ysgol Llanelltyd
- Ysgol Ieuan Gwynedd
- Ysgol Friog
- Ysgol Machreth

3.3 Golyga hyn sefydlu un Ysgol Ddalgylch, ddilyinol 3-16 oed, cyfrwng Cymraeg cymunedol ar nifer o safleoedd

- 3.4 Byddai safleoedd ysgolion Llanelltyd, Friog, Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Dinas Mawddwy, Gader a Cynradd Dolgellau yn ail agor fel safleoedd ar gyfer yr ysgol newydd.
- 3.5 Byddai safleoedd ysgolion Ganllwyd, Clogau (Bontddu), Machreth (Llanfachreth) a Brithdir yn cau, ni fyddai'r safleoedd hyn yn ail-agor.
- 3.6 Bydd y cynnig yn:
- Gwella safonau addysg ar draws y dalgylch wrth alluogi hyblygrwydd ar draws holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol
 - Cael effaith ar faint ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
 - Yn gwella cyflwr a safon stad ysgolion y dalgylch wrth fuddsoddi £4.34 miliwn ar uwchraddio ac ymestyn tri safle, wrth wario ôl-gronid cynnal a chadw ar dri safle arall
 - Galluogi system uwch reoli modern newydd, bydd yn rhyddhau'r pennaeth o'r dosbarth, yn cynnig hyblygrwydd gyda'r strwythur staffio ar draws y sectorau, ac yn darparu cyfleoedd gyrfa newydd
 - Sicrhau bod safle addysg o fewn pellter rhesymol i holl ddisgyblion y dalgylch
 - Yn lleihau llefydd gweigion y dalgylch
 - Yn rhoi oddeutu £255,625 o arbedion refeniw, ac yn rhesymoli amrediad cost y disgybl yn y dalgylch
 - Yn rhoi'r cyfle gorau i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio dysgu mwy byddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch

4. CYFNOD YMGYNGHORI STATUDOL

- 4.1 Yn unol â gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, cynhaliwyd cyfnod o ymgynghoriad statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 10 Hydref a 13:00 o'r gloch ar 24 Dachwedd 2014.
- 4.2 Paratowyd dogfen ymgynghorol statudol (atodiad 1), yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013). Ar gychwyn y cyfnod ymgynghori dosbarthwyd y ddogfen i'r ymgynghorai perthnasol, gan sicrhau bod copïau caled yn cael eu hanfon i'r ysgolion at sylw'r rhieni, llywodraethwyr a'r staff. Mae'r ddogfen a holl ddogfennaeth y pecyn cefndirol ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion.
- 4.3 Derbyniwyd 82 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol gan gynnwys ymatebion gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni unigol, yn ogystal â'r cyrff canlynol:
- | | |
|--|---|
| • Grŵp Rhieni Brithdir | • Staff Ysgol Ieuan Gwynedd |
| • Eglwys Salem Dolgellau | • Corff Llywodraethol Ysgol y Gader |
| • Meithrinfa Seren Fach | • Corff Llywodraethol Ysgol Brithdir |
| • UCAC | • Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Dolgellau |
| • Estyn | • Corff Llywodraethol Ysgol Ieuan Gwynedd |
| • Grŵp Llandrillo Menai | • Corff Llywodraethol Ysgol Friog |
| • Staff Ysgol Brithdir | • Corff Llywodraethol Ysgol y Clogau |
| • Penaethiaid Cynradd Dalgylch Y Gader | |
| • Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd | |



Mae'r ymatebion i gyd, yn dilyn dileu manylion personol a'r ymatebion na ddylid eu cyhoeddi yn unol â dymuniad yr ymatebwyr, i'w gweld yn llawn ar wefan y Cyngor yn www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion. Mae manylion pellach yn gysylltiedig â'r ymatebion isod:

Nifer Yr Ymatebion						
Gohebiaeth			Holiadur Plant a Phobl Ifanc		Arall	Cyfanswm
Cymraeg	Saesneg	Dwyieithog	Cymraeg	Saesneg		
52	12	4	13	1	-	82

Nifer Yr Ymatebion Nodwyd Cysylltiad gydag Ysgol...										
Brithdir	Clogau	Cynradd Dolgellau	Dinas Mawddwy	Friog	Ganllwyd	Ieuan Gwynedd	Llanelltyd	Machreth	Y Gader	Arall
38	5	4	1	3	2	8	2	3	9	10
Cyfanswm = 85										
* <u>Un</u> ymatebydd wedi nodi <u>9</u> ysgol cysylltiedig, ** <u>Un</u> ymatebydd wedi nodi <u>7</u> ysgol cysylltiedig, ** <u>Tri</u> ymatebydd wedi nodi <u>2</u> ysgol cysylltiedig										

Nifer Yr Ymatebion <i>Plant a Phobl Ifanc</i> Nodwyd Cysylltiad gydag Ysgol...										
Brithdir	Clogau	Cynradd Dolgellau	Dinas Mawddwy	Friog	Ganllwyd	Ieuan Gwynedd	Llanelltyd	Machreth	Y Gader	Heb Nodi
7	0	0	0	0	0	0	0	2	1	4
Cyfanswm = 14										

- 4.4 Ar 5^{ed} a 6^{ed} Dachwedd 2014 cynhaliwyd diwrnodau agored yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau. Yma roedd arddangosfa o'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghorol ac roedd swyddogion gwahanol o adrannau perthnasol (e.e. addysg, eiddo, personél ayb) ar gael i egluro ac ymateb i ymholiadau. Roedd hefyd cyfle i gael copi o unrhyw ddogfennaeth ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Mynychodd dros 100 o bobl y diwrnodau agored.



- 4.5 Crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd a phlant uwchradd gyda holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd bod hwylusydd arbenigol yn ymweld â'r ysgolion i gyd i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn. Mae dadansoddiad yr hwylusydd o'r sesiynau yma ar gael yn atodiad 3 yr adroddiad yma. Casgliad yr adroddiad ydy...

*“Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynghori oedd **bod plant yn fodlon addasu i sefyllfa newydd** er eu bod yn **poeni am fwlio, colli ffrindiau ac athrawon**, ond yn gyffredinol roedd yr adborth yn bositif yn rhan fwyaf o'r ysgolion.”*

5. SYLWADAU DERBYNIWYD YN YSTOD YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

5.1 Pwrpas rhan yma yr adroddiad yw cyflwyno rhai o'r prif bwyntiau ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Nid oes posibil rhoi sylw i bob sylwad yn fanwl yng nghorff yr adroddiad hwn, ond dadansoddwyd yr holl sylwadau gan nodi ymateb y Cyngor. Ceir y wybodaeth yma i gyd yn atodiad 2 o'r adroddiad yma.

5.1.1. O ran yr **ymateb yn gyffredinol yn ystod yr ymgynghoriad, gellir nodi bod cefnogaeth gyffredinol i newid y ddarpariaeth addysg**, a heblaw am ychydig o bryder ynglŷn â'r ffaith bod y model dilynol heb ei brofi eto, mynegwyd **cefnogaeth gyffredinol i'r model**.

5.1.2. Roedd yr ymatebion dderbyniwyd yn canolbwyntio'n gyffredinol ar:

- Addysg
- Statws/Materion Ieithyddol
- Materion staffio
- Statws Cyfreithiol (Cymunedol/Eglwysig)
- Datblygiad arfaethedig safle Rhydymain
- Safle Brithdir
- Materion Safleoedd Eraill
- Ymgynghori gyda plant a phobl ifanc
- Cludiant
- Materion Llywodraethu
- Y Broses Ymgynghori Statudol - Cyfredol a'r Broses yn 2011
- Opsiynau Amgen

5.2 Addysg

5.2.1. Nodwyd gan nifer fechan o ymatebwyr bod ansawdd addysg mewn ysgolion gwledig cynradd bychain yn llawer gwell o gymharu ag ysgolion mwy. Yn ychwanegol, crybwyllwyd heriau sydd wedi codi yn yr ysgol uwchradd yn ddiweddar a chwestiynwyd pam bod y newidiadau i'w gweld yn effeithio ar y sector cynradd fwyaf.

5.2.2. Eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori bod cyfleoedd ar gael i holl ystod oedran disgyblion y dalgylch (3-16). Bydd yn cymedroli maint dosbarthiadau i ran fwyaf y safleoedd cynradd, ni fydd angen i benaethiaid ddysgu rhan helaeth o'i hamser fel bo modd i'r tîm rheoli allu canolbwyntio ar arwain a rheoli'n effeithlon, llai o ddyblygu gwaith dros y dalgylch, a chyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac adnoddau dros y sectorau yn ogystal â rhannu arferion da. O ran ysgolion gwledig bychain, mae'r cynnig a ffefrir yn cadw pedwar safle cynradd gwledig.

5.2.3. Nododd rhai ymatebwyr y dylid symud ymlaen gydag addysg ond nid drwy gymryd risg, gan ystyried bod y model ysgol ddilynol ddalgylchol heb ei brofi eto.

5.2.4. Mae'n wir bod y model yn un arloesol ond ni ddylai hyn fod yn rheswm i beidio â chymryd y cyfle i sefydlu trefn addysgol gadarn i'r dyfodol. Mae'r model ysgol ddilynol wedi ei sefydlu mewn 4 ysgol yng Nghymru ac mae ffederasiwn yn y De sydd yn cynnwys un ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd. Mae'r Cyngor wedi trafod mewn fforymau gyda rheolwyr y sefydliadau yma ac wedi addasu'r model i gwrdd â gofynion dalgylch Y Gader. Mae rhinweddau a risgiau'r model wedi cael eu hystyried yn llawn wrth werthuso'r modelau, ac ystyrir yr opsiwn arfaethedig yw'r ffordd orau ymlaen.

5.2.5. Derbyniwyd ymateb gan Estyn oedd yn nodi bod y cynnig yn *"debygol o gynnal ac o bosibl gwella safonau presennol y ddarpariaeth addysgol"* yn y dalgylch. Derbyniwyd hefyd ymateb gan Grŵp Llandrillo Menai oedd yn nodi bod y cynnig yn *"synhwyrol ac yn gynaliadwy"* ac yn rhoi cefnogaeth swyddogol i'r datblygiad. Mae'r Cyngor yn falch o'r adborth a'r gefnogaeth gan y sefydliadau addysgol yma.

5.3 Cymunedol

- 5.3.1. Nododd rhai ymatebwyr bod dileu presenoldeb addysgol o'u pentrefi am gael effaith negyddol ar y cymunedau hynny. Mae rhai yn sôn mai'r ysgol yw calon y gymuned a bod trigolion lleol wastad yn dangos eu cefnogaeth wrth fynychu digwyddiadau'r ysgol.
- 5.3.2. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cau safleoedd addysgol mewn pentrefi bychain yn cael effaith negyddol ar y cymunedau a bydd cynnal cyswllt cymunedol yn un o'r ystyriaethau wrth sefydlu'r ysgol newydd arfaethedig. Mae'r asesiad effaith cymunedol yn nodi rhai mesurau lliniaru gallai'r Cyngor a'r ysgol arfaethedig eu mabwysiadu pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

5.4 Statws/Materion Ieithyddol

- 5.4.1. Mae statws ieithyddol arfaethedig yr ysgol wedi'i drafod gan rai ymatebwyr yn ystod yr ymgynghoriad gyda rhai yn nodi y byddai yn well ganddynt pe byddai'r ysgol yn un ddwyieithog yn hytrach na Chymraeg.
- 5.4.2. Mae statws ieithyddol yn derm technegol, sydd angen ei glustnodi wrth greu ysgol newydd yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a dogfen arweiniol y Llywodraeth, "*Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg*" (023/2007).
- 5.4.3. Mater technegol yw'r statws yng Ngwynedd gan fod cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg yn berthnasol i holl ysgolion y Sir, sydd yn golygu bod yr un disgwyliadau ieithyddol ar bob ysgol. Amcan y polisi yw:
"Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o'r Ysgolion ... Er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg."
- 5.4.4. Gan ystyried bod yr ysgolion cynradd i gyd yn ysgolion Cymraeg byddai rhoi statws dwyieithog ar y sector cynradd yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn unol â rhagamcanion ym Medi 2017 mae mwy o ddisgyblion cynradd nac uwchradd. Yn ymarferol ni fydd newid dydd i ddydd yn yr iaith gaiff ei ddarparu i'r disgyblion uwchradd gan y bydd angen darparu addysg trwy gyfrwng sydd yn ymateb i drawstoriad demograffig y dalgylch.
- 5.4.5. Nododd rhai ymatebwyr bod y Gymraeg ar ei chryfaf mewn ysgolion bychain gwledig a byddai'n drueni gwanhau'r iaith wrth gau ysgolion lle mae'r iaith yn gadarn.
- 5.4.6. Yng nghyd-destun dalgylch Y Gader, comisiynwyd asesiad ieithyddol annibynnol i asesu'r modelau. Roedd yr asesiad yma yn nodi'r anghysondeb o fewn y dalgylch o ran yr iaith Gymraeg, ond hefyd yn gweld cyfle wrth symud ymlaen gyda'r model a ffeirir trwy greu ysgol 3-16 cyfrwng Cymraeg:
*"Model 8: Ysgol Ddilynol Dalgylchol ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Friog, a Dinas Mawddwy a chau Ganllwyd, Clogau, Machreth a Brithdir. Un pennaeth, un corff llywodraethol. Dyfarniad o **effaith cadarnhaol** sy'n cynnig **cyfle i sicrhau cysondeb ar draws y dalgylch cyfan**. Tra nad oes modd gosod pob model mewn trefn sgorio effaith ar iaith, casglwn fod y model hwn yn cynnig **manteision arbennig o ran cynllunio a darparu addysg statudol** fydd yn **gyson ac yn deillio o un weledigaeth gyflawn** yn hytrach na chyfeiriad amrywiol nifer o sefydliadau fydd, yn anorfod, a safbwynt amrywiol o ran dyhead i gyflawni polisi iaith addysg y sir a chreu dinasyddion ifanc hyfedr ddwyieithog. Mewn dalgylch lle mae'r Gymraeg yn wyneb sawl her sylfaenol, **efallai'n wir mae cynllunio'r ddarpariaeth ar sail un weledigaeth sefydliadol yw'r ffordd orau** i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio a dysgu mwy fyddai gan un sefydliad i'r **defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch**."*
- 5.4.7. Un o heriau sefydlu'r ysgol ddilynol dalgylchol fyddai sefydlu strwythur ieithyddol cywir, ar draws y sectorau oedran. Bydd ymateb i'r her a gweithrediad Polisi Iaith yr ysgol yng ngofal y Pennaeth a'r

Corff Llywodraethu, gyda chymorth gan y Sir. Bydd angen gweithredu Polisi Iaith y Sir yn briodol ac mewn modd sydd yn ymateb i'r her yn yr asesiad ieithyddol.

5.5 Materion Staffio


- 5.5.1. Mae rhai o'r ymatebion, gan gynnwys ymatebion gan staff, yn nodi pryderon oherwydd y cyfnod o ansicrwydd sydd yn y dyfodol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Nododd rhai bod straen ar staff y dalgylch ers cryn amser gan ystyried bod trafodaethau ad-drefnu wedi cael eu cynnal ers rhai blynnyddoedd. Roedd rhai yn nodi nad oedd digon o wybodaeth ar gael ar y cam ymgynghori statudol, ac am gael gwybod beth fydd eu sefyllfa bersonol a nodi faint o swyddi byddai'n cael eu colli. Mae nifer wedi crybwyll pwysigrwydd penodi pennaeth addas i allu arwain yr ysgol newydd.
- 5.5.2. Cydnabuwyd bod trafodaethau trefniadaeth ysgolion yn creu ansicrwydd yn y dalgylch a bod y cyfnod i ddod am fod yn ansicr a gall arwain at ddiswyddiadau. Gan nad yw'r penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto (ymgynghori'n unig yw'r cam yma) nid yw'n bosib rhoi gwybodaeth fanwl am sefyllfaoedd unigol. O ran nifer y swyddi bydd yn cael ei gollu, mae hefyd yn gynamserol nodi hyn oherwydd bod strwythur staffio'r ysgol newydd yn fater trafod i'r corff llywodraethol cysgodol. Pe bai'r penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig yn cael ei wneud, bydd ymgynghorwyr adran Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i roi cymorth gydol y broses. Mae nifer o gyfarfodydd a chymorth wedi cael eu rhoi i staff ysgolion yn gysylltiedig â datblygiad Ysgol Ardal Groeslon, Carmel a Bronyfoel yn y 6 mis diwethaf, a bydd y cymorth yma ar gael i staff ysgolion dalgylch Y Gader. Mae angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r galw am gefnogaeth gwasanaeth Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol y Cyngor gan ystyried bydd staff 10 ysgol angen cymorth pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.
- 5.5.3. Daeth yn amlwg o'r broses ymgynghori bod penodi unigolyn addas i rôl y pennaeth yn greiddiol i lwyddiant y model. Nododd rhai ymatebwyr y gall bod her wrth geisio recriwtio unigolyn o'r calibr addas a byddai angen sicrhau eu bod yn cael cyfle teg i arwain a rheoli cynifer o safleoedd. Ar sail gwersi a ddysgwyd mewn siroedd eraill, dylai pennaeth gael ei benodi o leiaf blwyddyn cyn i'r ysgol ddilynol dalgylchol arfaethedig agor. Bydd hyn yn galluogi amser paratoi fel bod penodiadau a strwythur staffio yn gallu cael ei greu ynghyd â sicrhau amser digonol i greu polisiâu a threfniadau cadarn cyn i'r ysgol agor. Bydd angen i'r Cabinet ystyried hyn a sicrhau fod ymrwymiad adnoddau allan o arbedion y cynllun er mwyn penodi unigolyn cymwys ac addas, a hynny'n amserol.

5.6 Statws Cyfreithiol - Cymunedol/Eglwysig

- 5.6.1. Derbyniwyd rhai ymatebion o blaid y statws cymunedol. Nodwyd peth anfodlonrwydd bod yr Eglwys yng Nghymru wedi cael bod yn rhan o'r drafodaeth cyn yr ymgynghoriad statudol (e.e. rhoi cymorth i gynllunio holiadur yr asesiad o angen am wahanol fathau o ysgolion a'r rhag-ymgynghoriad). Roedd ambell ymgynghorai o dan y camargraff fod yr Eglwys Gatholig wedi bod yn rhan o'r trafodaethau yn ogystal.
- 5.6.2. Mae Esgobaeth Bangor, yr Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysgol yn dalgylch Y Gader gan fod Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Machreth yn ysgolion gwirfoddol a Reolir (Eglwys yng Nghymru). Golyga hyn bod gofynion penodol ar y Cyngor, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) pan ystyrir ad-drefnu ysgolion ac un o'r rhain yw'r angen i gynnal cyfnod o rhag-ymgynghoriad. Yr unig sefydliad i roi mewnbwn cyn y cyfnod ymgynghori statudol oedd yr Eglwys yng Nghymru, yn unol â gofynion statudol.
- 5.6.3. Nododd un neu ddau o ymatebwyr anfodlonrwydd presenoldeb yr Eglwys yng Nghymru ar gorff llywodraethol yr ysgol newydd heb sicrhau chwarae teg i eglwysi anghydfurfiol yr ardal hefyd. Gan fod y cynnig arfaethedig wedi ffafrio statws cymunedol ar yr ysgol dalgylch dilynol ni fydd lle penodol ar y corff llywodraethol cysgodol i gynrychiolaeth yr Eglwys yng Nghymru.

5.7 Datblygiad Arfaethedig Rhydymain

- 5.7.1. Nodwyd bodlonrwydd fod safle Rhydymain yn cael ei ddatblygu a chrybwyllwyd nifer o argymhellion pellach yn dilyn gweld y cynllun arfaethedig (isod) e.e. cynnig rhoi'r estyniad ar ochr Llanuwchllyn yr adeilad. Nifer wedi nodi'r awydd i staff yr ysgol gael rhoi mewnbwn cyn i'r dyluniad terfynol gael ei gymeradwyo.



- 5.7.2. Er bod yr estyniad yn cael ei ddangos mewn un lleoliad ar y cynllun presennol, cynllun cysyniadol yn dangos un opsiwn posib yn unig yw hwn. Byddwn yn parhau i ystyried a oes modd rhoi'r estyniad mewn lleoliad arall (yn y cefn efallai) er mwyn ceisio amharu cyn lleied â phosib ar y safle ei hun. Bydd y trafodaethau yn parhau dros y misoedd nesaf.
- 5.7.3. Nid yw'n bosib newid ffigwr buddsoddiad sydd wedi ei glustnodi ar gyfer uwchraddio safle Rhydymain, sef £620,000. Dyluniadau cysyniadol sydd yn bodoli ar y pwynt yma, pe bai'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig, bydd ymgynghori llawn gyda'r Pennaeth ac aelodau'r corff llywodraethu ar ddylunio pellach.
- 5.7.4. Nododd rhai bryderon ynghylch cynnal dau eisteddiad cinio, gan roi cais i ymestyn y neuadd ymhellach (syniad o efallai rhoi cyntedd gwydr fyddai'n gallu cael ei ddefnyddio fel rhan o'r neuadd). Bydd hyn yn golygu bod modd cynnal chwaraeon, gwasanaethau a chinio i holl ddisgyblion y safle ar yr un pryd. Roedd nifer wedi nodi'r gobaith o gael buddsoddiad uwch na'r buddsoddiad arfaethedig fel bod y datblygiad yn debycach i'r hyn wnaethpwyd yn Ysgol OM Edwards. Roedd ymatebwyr sydd yn nodi gwrthwynebiad i safle Rhydymain yn gweld y buddsoddiad yn annheg i ddisgyblion Dwyrain y dalgyllch gan ystyried y buddsoddiad arfaethedig yn safleoedd Cynradd Dolgellau a Llanelltyd.
- 5.7.5. Bydd y neuadd o faint digonol i gynnal gwasanaethau, gweithgareddau ymarfer corff a gweithgareddau cerddoriaeth ayyb. Bydd angen dau eisteddiad cinio pe bai'r safle yn llawn. Nid yw cynnal dau eisteddiad cinio yn anarferol yn ysgolion Gwynedd. Mae'r Cyngor wedi ystyried gosod neuadd fwy, ond gan ystyried y cyllideb sydd ar gael, ni ellid cyfiawnhau costau uwch na'r hyn sydd dan sylw. Fel rhan o'r cynllun buddsoddir £620,000 yn safle Rhydymain, sydd yn swm sylweddol gan y Cyngor. Canlyniad buddsoddiad arfaethedig y cynllun yw sicrhau bod gan bob safle addysgol y dalgyllch neuadd bwrpasol fel nad oes angen i ddisgyblion barhau i fwyta yn eu dosbarth, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn rhai ysgolion.
- 5.7.6. Nodwyd nifer hefyd am gyfyngiad cyflymder y ffyrdd sy'n gysylltiedig â safle Rhydymain, hoffa rhai weld y briffordd (A494) yn cael ei gyfyngu i 50/40/30mya a'r ffordd yn y pentref i 20mya.

- 5.7.7. Yn ystod y broses ddylunio a chyflwyno cais cynllunio, bydd trafodaethau manwl ynglŷn â pha fesurau rheoli traffig sydd angen eu cyflwyno o amgylch y safle ei hun a'r ffyrdd cysylltiol. Byddwn yn asesu'r risgiau ac yn sicrhau fod mesurau lliniaru risg priodol yn cael eu hymgorffori yn rhan o'r gwaith.
- 5.7.8. Nodwyd gan nifer y byddai'n well cael estyniad i greu 4 dosbarth ar y safle yn hytrach na 3 dosbarth, gan nodi bod niferoedd cyfnod sylfaen yn mynd i fod yn uwch na 30 disgybl ym Medi 2017 ac amlygu bod dros 30 yn y cyfnod sylfaen yn anghyfreithlon.
- 5.7.9. Adroddwyd yn y ddogfen ymgynghori ar sail y rhagamcanion a grëwyd ym Medi 2013 gan bennaethiaid, a chynigwyd un ffordd posib gall maint dosbarthiadau safle Rhydymain gael eu trefnu. Enghraifft yn unig yw hyn, mae'r tabl isod yn dangos tair gwahanol ffordd gall niferoedd disgyblion cael eu trefnu yn seiliedig ar ragamcanion darparwyd gan bennaethiaid ym Medi 2014:

Safle	Meithrin	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6	Cyf.	Nifer Dosb	Dosb Mwyaf	Dosb Lleiaf	Cyfartaledd Dosb		
Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2013															
Rhydymain	8	8	7	8	9	8		12	7	67	3	23	21	22	
	4		4		23										
23			21			23									
Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 1															
Rhydymain	8	7	6	9	8	8		13	7	66	3	24	21	22	
	4		4		24										
21			21			24									
Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 2															
Rhydymain	YB	4	7	6	9	8	8	13	7	66	3	26	16	19	
	YP	4													
26			16			20									
Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 - Posibilrwydd 3															
Rhydymain	YB	4	7	6	9		8	8	13	7	66	3	20	17	19
	YP	4			5	4									
17			20			20									

- 5.7.10. O'r enghreifftiau yn y tabl uchod, yn ddibynnol ar benderfyniad y pennaeth, mae modd creu strwythur dosbarthiadau fel nad yw cyfnodau allweddol yn cael eu croesi. Bydd strwythur y dosbarthiadau yn cael eu penderfynu gan y pennaeth a'r corff llywodraethol yn seiliedig ar wir nifer y plant a'r staff penodwyd i'r safle. Byddai creu pedwar dosbarth yn costio llawer mwy, yn creu llefydd gweigion ac yn golygu'r angen am fwy o staff. Ystyrir bod tri dosbarth ar y safle yma yn cynnig darpariaeth addysg wledig briodol i nifer y disgyblion dan sylw.
- 5.7.11. Crybwyllwyd nifer bryderon am gynaliadwyedd safle Rhydymain gan ystyried niferoedd disgyblion isel presennol, niferoedd uchel o lefydd gweigion, pellter y safle gan ystyried ei leoliad ar gyrion dalgylch Y Gader a'r peryg na fydd disgyblion all-dalgylch sy'n mynychu Brithdir ar hyn o bryd yn cael lle yn y safle nac ychwaith yn dewis mynychu'r safle yn y dyfodol.
- 5.7.12. Mae cynllunio llefydd mewn ysgolion yn anodd oherwydd bod dewis rhieni a teithio tu allan i dalgylch naturiol yn digwydd. Yn yr opsiwn ffafriedig arfaethedig mae digon o le yn safle Rhydymain i ddisgyblion presennol Brithdir, Rhydymain a Machreth. Rhagwelir bydd safle Rhydymain yn gallu dal oddeutu 70 o ddisgyblion ac yn seiliedig ar ragamcanion Medi 2014 bydd 66 o blant yno, gan gynnwys disgyblion all-dalgylch sydd eisoes yn mynychu'r tair ysgol. O ran pellter y safle, bydd cludiant di-dal yn cael ei gynnig yn unol â'r polisi cludiant, fel eglurir yn y ddogfen ymgynghorol statudol ac adran cludiant yr adroddiad yma.

5.8 Safle Brithdir

- 5.8.1. Roedd rhan fwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol gan drigolion Brithdir sydd eisiau i'r Cyngor ail ystyried a defnyddio safle Ysgol Brithdir fel rhan o'r model arfaethedig. Mae cryn ddryswch am y penderfyniad i roi'r gorau i'r cynllun blaenorol (Ysgol Ardal Aml-Safle Brithdir a Dinas Mawddwy) ac oblygiadau presenoldeb y graig ar y safle ym Mrithdir.
- 5.8.2. Nodwyd gan nifer eu bod wedi deall mai'r prif reswm dros beidio parhau â'r cynnig yn y Brithdir oedd presenoldeb craig ar y safle gyfochr â'r ysgol. Nifer o ymatebwyr wedi synnu wrth ddeall gan yr adran Eiddo yn y diwrnodau agored bod problemau cynllunio yn her hefyd. Nododd rhai eu bod wedi cysylltu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ac nad oedd cais cynllunio wedi ei gyflwyno yn gysylltiedig â'r cynnig ac felly nad oeddynt wedi gwrthod unrhyw gais. Nododd rhai ymatebwyr mai cynlluniau cychwynnol yn unig dderbyniodd Parc Cenedlaethol Eryri fel yr Awdurdod Cynllunio. Cyflwynwyd cais gan rhai ymatebwyr i'r Cyngor gyflwyno cais cynllunio yn seiliedig ar ddatblygu safle Brithdir
- 5.8.3. Cynhaliwyd sawl trafodaeth agored gyda Swyddogion Cynllunio'r Parc. Crewyd model 3D o'r ysgol a chyflwynwyd cynlluniau. Cynigiwyd gwneud newidiadau. Roedd yr ymateb yn negyddol ac roeddent yn gallu cyflwyno dadleuon digon rhesymol dros wrthod cais cynllunio. Byddai parhau i wneud y gwaith angenrheidiol i gyflwyno cais llawn wedi costio rhai degau o filoedd a phenderfyniad y Cabinet, o ystyried yr holl ffactorau, oedd i beidio â bwrw 'mlaen gyda'r datblygiad.
- 5.8.4. Nodwyd pryder gan nifer ynglŷn â'r cyfarpar a ddefnyddiwyd i asesu daeareg y safle. Daeth yn amlwg bod rhai rhieni wedi bod ar y cae i wneud ymchwil eu hunain gyda pheiriant, a'u bod wedi methu darganfod y graig. Nodwyd gan nifer o ymatebwyr bod angen mwy o dystiolaeth ac eglurder clir a gonest pam bod y Cyngor wedi peidio â pharhau gyda datblygu safle Brithdir.
- 5.8.5. Cwmni breifat Betts Geoenvironmental comisiynwyd i gwblhau gwaith daear ar safle gyfagos i Ysgol Brithdir. Penderfyniad y cwmni arbenigol oedd i ddefnyddio bwced diddannedd i dyllu'r cae. Y rheswm oedd bod y safle o fewn pellter penodol i olion archeolegol. Mae defnyddio bwced gyda dannedd yn debygol o chwalu unrhyw olion archeolegol ac mae hyn yn drosedd. Dyma'r offer a ddefnyddir gan bob cwmni arbenigol mewn sefyllfa o'r fath - cyrraedd lefel y graig yw pwrpas yr archwiliad nid ceisio tyllu drwyddi ac felly mae bwced heb ddannedd yn gwbl resymegol.
- 5.8.6. Mae'r adroddiad geotech yn cadarnhau fod craig wedi ei darganfod 1 metr o dan y ddaear – mae'r term "craig" yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gwneuthuriad y deunydd o dan y ddaear – nid yw o reidrwydd yn un craig solet. Roedd y cynnydd mewn costau yn gyfuniad o fwy nag un ffactor wrth gwrs gan gynnwys tyllu'r deunydd o'r safle, y gost o roi gwasanaethau drwy'r deunydd, o gost o ddraenio drwy'r deunydd, y gofynion newydd gan y Llywodraeth (gan gynnwys cynnydd mewn arwynebedd, a'r linc cymhleth rhwng un lefel y safle i'r lefel arall (cynnwys lifft ayb).
- 5.8.7. Nid presenoldeb y graig yw'r unig reswm nac yn wir y prif reswm dros benderfyniad y Cabinet i ddirwyn y broses ddiwethaf i ben. Nodwyd yn adroddiad aeth i Gabinet y Cyngor yng Ngorffennaf 2013;

"1.4. Aethpwyd ymlaen i ymgynghori'n statudol ar y bwriad o wireddu'r cynllun yn ardal Brithdir a Dinas Mawddwy gan adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn yn Rhagfyr 2011. Oherwydd bod gwrthwynebiadau wedi eu derbyn trosglwyddwyd y mater i'r Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol. Ym mis Tachwedd 2012 cafwyd penderfyniad o blaid y cynnig.

1.5. Yn y cyfamser, gwnaethpwyd gwaith manwl ar safle Ysgol Brithdir a daethpwyd ar draws problemau a rhwystrau sylweddol o ran datblygu safle Brithdir o safbwynt materion cynllunio a chostau. Ers cyfnod yr ymgynghori ac wrth ddatblygu'r dyluniadau, daeth yn amlwg y byddai'n anodd iawn derbyn caniatâd cynllunio. Nodwyd y byddai'n rhaid gostwng lefel y tir yn sylweddol ar gyfer adeiladu a hynny mewn ardal ble mae craig, a byddai cost sylweddol ynghlwm â hyn. Yn ystod yr un cyfnod daeth yn amlwg fod gofynion technegol y Llywodraeth wedi newid ac y byddai angen mwy o

ofod yn yr estyniad. Canlyniad hyn ydyw fod yr hyn a ystyrir bellach yn wahanol i'r hyn dybiwyd adeg yr ymgynghori, a chynnydd yn y gost a risg sylweddol na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi. Y pryder ydyw y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei wario er mwyn goresgyn problemau peirianyddol y safle yn hytrach nag ar adnoddau addysg i ddisgyblion yr ardal.

1.6. Yn sgîl hyn daethpwyd i gasgliad na fydd y cynnig gwreiddiol yn cael ei weithredu a bydd rhaid datblygu cynllun arall."

5.8.8. Y prif resymau dros beidio parhau a'r cynnig blaenorol i greu ysgol ardal aml-safle oedd:

- a) Y risg sylweddol o fethu cael caniatâd cynllunio doed a ddel. Yn ystod y cyfnod dylunio aeth barn y swyddogion cynllunio yn llawer mwy negyddol nag yr oedd adeg yr ymgynghori ac roeddent yn mynd yn fwy pryderus wrth i amser fynd heibio. Roeddem wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd y siawns o fod yn llwyddiannus yn fychan os nad amhosib. Dyma'r prif reswm felly, mater na all arian ei oresgyn wrth gwrs.
- b) Yn ystod y cyfnod dylunio daeth gofynion y Llywodraeth yn gliriach. Er mwyn defnyddio arian grant roedd angen gwariant ychwanegol ar natur yr adeiladwaith er mwyn cyrraedd gofynion amgylcheddol uchel iawn. Hefyd roedd angen 70m² yn ychwanegol nag a dybiwyd yn wreiddiol er mwyn cyrraedd y safonau disgwylidig i sicrhau arian grant.
- c) Yn ystod y dylunio roedd y yn Parc mynnu y byddai'n rhaid gostwng lefel yr adeilad newydd yn sylweddol (hyd at 3m) er mwyn peidio effeithio ar yr ysgol bresennol a mwynderau'r tŷ yn y cefn. Eisoes mae safle'r ysgol bresennol fetr yn uwch na'r safle drws nesaf ac felly byddai angen cloddio 4 metr. Mae'r arolwg arbenigol yn dangos fod craig un fetr o dan y ddaear. Nid yw hyn ynddo'i hun yn golygu ei bod yn amhosib cyflawni'r datblygiad ond yn amlwg roedd yn ychwanegu at y gost. Byddai'r gwahaniaeth lefel hefyd yn golygu creu linc gymhleth a chostus rheng yr adeilad hen a newydd, gan gynnwys lifft ayb.

5.8.9. Nododd nifer o ymatebion mai Ysgol Brithdir yw'r safle fwyaf canolog, mae'n hwylus i rieni gan fod nifer yn cludo'u plant yno yn barod. Amlygwyd bod niferoedd uchel o blant yn Ysgol Brithdir a dim llefydd gweigion sydd yn cynnig ei hun fel y safle fwyaf hyfyw i'r dyfodol. Rhai ymatebwyr yn crybwyll bod meithrinfa breifat gerbron yn y Brithdir sydd yn hwyluso trefniadau i rieni a bod pellter teithio i Rydymain yn mynd i fod yn rwystr mawr. Bydd nifer uwch o ddisgyblion angen teithio i'r ysgol a nodwyd gan rhai ymatebwyr na fyddai rhieni'n cludo'u plant o Ddolgellau i Rydymain o ystyried y pellter. Gall hyn effeithio ar hyfywedd safle Rhydymain i'r dyfodol ym marn rhai o'r ymatebwyr. Ategwyd gan nifer mai safle Brithdir fyddai'r un hyfyw i'r dyfodol, a rhoddwyd nifer o geisiadau i ddatblygiad safle Brithdir gael ei ail-hystyried.

5.8.10. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhinweddau da i safle Brithdir, yn wir, dyma rai o'r rhesymau pam penderfynwyd ei gynnwys fel safle yn yr ymgynghoriad blaenorol (2011) ac ni ellir dadlau yn erbyn hynny. Oherwydd problemau technegol cost gynyddol datblygu'r safle, a rhwystrau cynllunio bu yn rhaid i'r Cyngor gwneud y penderfyniad anodd ac ystyried opsiynau a safleoedd eraill.

5.9 Materion Safleoedd Eraill

5.9.1 Derbyniwyd ymateb yn croesawu ac yn falch iawn o'r buddsoddiad ar safle Cynradd Dolgellau. Rhoddwyd cais i ymgynghori gyda staff yr ysgol fel y defnyddiwr cyn datblygu'r cynllun terfynol. Fel sydd eisoes wedi'i nodi, nid yw'r gwaith dylunio go iawn wedi cychwyn, ystyried cysyniadau sydd yn digwydd ar y pwynt yma. Yn ddibynnol ar benderfyniad y Cabinet yn dilyn yr adroddiad yma bydd y dylunio pellach yn cael ei wneud. Mae dymuniad i ymgynghori'n llawn gyda'r Pennaeth a hefyd gyda'r Corff Llywodraethu wrth i'r broses hon gael ei dilyn. Bydd barn a mewnbwn rhai sy'n defnyddio'r ysgol yn hanfodol er mwyn cael cynllun llwyddiannus.

5.9.2 Roedd un ymateb yn pryderu ynghylch lefel buddsoddiad safle Friog, gan bryderu nad yw'n ddigonol i ddenu rhieni i'r safle a bydd yn colli disgyblion i'r safleoedd eraill. Mae adeilad Friog mewn cyflwr derbyniol ac nid oes gofynion gwario mwy ar ei gyflwr. Nid oes cyllideb ar gael i uwchraddio'r safle yn ei gyfanrwydd. Nododd rhai ymatebwyr bod nifer o ddiffygion adeiladol yn safle Ysgol Y Gader. Bydd holl anghenion ôl-groniad cynnal a chadw sydd ei hangen ar safleoedd Friog, Dinas Mawddwy a'r Gader yn cael ei wario erbyn Medi 2017. Yn wir mae Ysgol Friog wedi derbyn buddsoddiad dros Haf 2014 pryd cwblhawyd gwelliannau i'r gegin, rheiddiaduron newydd a ffenestri newydd. Bydd £15,000 arall yn cael ei wario. Mae £439,000 o ôl-groniad cynnal a chadw angen ei wario yn safle Y Gader, bydd hyn yn cael ei wneud maes o law.

5.10 Ymgynghori gyda plant a phobl ifanc

- 5.10.1. Nododd un neu ddau o rieni eu anfodlonrwydd bod sesiynau'n cael eu cynnal gyda disgyblion heb iddynt wybod o flaen llaw. Nid oeddent yn deall pam bod angen trafod gyda plant ac yn credu mai cyfrifoldeb rhieni yw penderfynu dewis rhannu gwybodaeth gyda'u plant neu beidio.
- 5.10.2. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), mae'n hanfodol fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol i ymgynghori gyda plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion sy'n destun yr ymgynghoriad. Nodwyd yn rhan 1 y ddogfen ymgynghorol statudol: *"Bydd trefniadau hefyd yn cael eu gwneud i dderbyn barn plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion dan ystyriaeth. Bydd hwylusydd arbenigol yn ymweld a phob ysgol i gynnal sesiynau penodol i alluogi plant gael rhoi eu barn. Mae yna ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion yn ogystal â ffurflen ymateb addas. Golyga hyn bod modd i blant a phobl ifanc unigol sydd ddim yn rhan o'r sesiynau ymateb i'r ymgynghoriad hefyd."* Dosbarthwyd copi caled o'r ddogfen ymgynghori statudol i bob riant/warchodwr yn gysylltiedig a'r 10 ysgol ac roedd penaethiaid ysgolion yn rhan o drefnu'r trefniadau ymweliad yr hwylusydd. Penderfynodd un neu ddau o rieni tynnu eu plant o'r sesiynau, ac mewn un ysgol penderfynodd aelodau'r corff llywodraethol eistedd i mewn ar y sesiwn. Mae adroddiad llawn yr hwylusydd i'w weld yn atodiad 3.
- 5.10.3. Derbyniwyd nifer o holiaduron cynradd ac un holiadur uwchradd fel rhan o ohebiaeth y cyfnod ymgynghori. Roedd yr ymatebion bron i gyd yn unfrydol mai ffrindiau da, athrawon da ac addysg dda yw'r pethau pwysicaf mewn ysgol. Nodwyd gan rai hefyd bod siarad Cymraeg yn y buarth yn bwysig a bod cyfleoedd i gystadlu mewn chwaraeon a chanu/llefaru/dawnsio'n bwysig iawn.
- 5.10.4. Roedd 10 o blant wedi ticio'r gwyneb trist mewn ymateb i'r cynnig a'r prif bryderon oedd teithio'n bell i safle newydd, cael eu gwahanu o ffrindiau, plant cas newydd, athrawon newydd, a methu deall y newid gan bod Brithdir yn fwy na leuan Gwynedd heddiw a bod Brithdir yn ysgol gymunedol Gymraeg gwledig hapus sydd yn cael ei chau.
- 5.10.5. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi sylwadau plant a phobl ifanc yr ysgolion ac yn cymryd sylw o'r pryderon penodol nodwyd. Bydd bob ymdrech yn cael ei gwneud i leddfu'r pryderon pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu e.e. trefnu amser cydweithio fel bod disgyblion gwahanol safleoedd fydd yn dod at ei gilydd yn dod i adnabod ei gilydd cyn Medi 2017 a chodi ymwybyddiaeth y disgyblion am bellteroedd/amseroedd teithio arfaethedig.
- 5.10.6. Roedd 2 o blant wedi ymateb wrth ticio'r gwyneb hapus gan nodi eu bod yn edrych ymlaen at ysgol fwy gyda dosbarth mwy a'r posibilrwydd o gwneud ffrindiau newydd mewn safle newydd. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'r sylwadau ac yn falch o weld y nodweddion penodol mae disgyblion yn edrych ymlaen atynt a'r materion ystyrir yn bwysig mewn ysgol.

5.11 Cludiant a Teithio

- 5.11.1. Roedd sylwadau am bellter teithio o Ddolgellau a Brithdir i Rydymain, wrth i rai nodi na fydd rhieni'n fodlon teithio mor bell dwywaith y dydd. Roedd rhai ymatebwyr yn cysylltu llwyddiant niferoedd Ysgol Brithdir gyda meithrinfa Seren fach o ran hwylustod gan nodi byddai cost ac amser teithio i Rydymain

rhy uchel iddynt gludo’u plant yno. Mae rhai o’r ymatebwyr wedi rhoi cais am warant o gludiant parhaol i’r disgyblion sydd yn yr ysgolion sydd yn cau.

- 5.11.2. Bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu yn unol â’r polisi cludiant ysgolion sydd yn nodi bod y Sir yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o dan yr amgylchiadau canlynol:

“Disgyblion Oed Cynradd - i ddisgyblion sy’n byw 2 filltir neu fwy oddi wrth yr ysgol yn eu dalgyrch, neu’r ysgol agosaf.

Disgyblion Oed Uwchradd - ar gyfer disgyblion o dan 16 sy’n byw 3 milltir neu fwy o’r ysgol yn eu dalgyrch neu’r ysgol agosaf.”

- 5.11.3. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol statudol, bydd angen addasu’r polisi cludiant ychydig i gydnabod elfen aml-safle yr ysgol arfaethedig, felly bydd angen iddo ddarllen bod y Sir yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o dan yr amgylchiadau canlynol:

*“Disgyblion Oed Cynradd - i ddisgyblion sy’n byw 2 filltir neu fwy o **safle’r ysgol** yn eu dalgyrch, neu’r **safle’r ysgol agosaf**.*

*Disgyblion Oed Uwchradd - ar gyfer disgyblion dros 16 oed sy’n byw 3 milltir neu fwy o **safle’r ysgol** yn eu dalgyrch neu **safle’r ysgol agosaf**.”*

- 5.11.4. Yn ogystal â hyn, daeth yn amlwg yn ystod yr ymgynghoriad statudol bod rhai disgyblion sydd yn byw yn nalgylch presennol Ysgol Brithdir yn byw yn nes i safle Cynradd Dolgellau o gymharu â safle Rhydymain. Gan fod y Cyngor yn cynllunio llefydd i holl ddisgyblion ysgolion Brithdir, Machreth a Ieuan Gwynedd yn safle Rhydymain, argymhellir cyfeiriad penodol at hen ddalgyrchodd yr ysgolion fel bo disgyblion y dalgyrchodd hynny’n cael cludiant am ddim i Rydymain (os ydynt yn byw dros 2 filltir o’r safle). Y dalgyrch dan sylw byddai’r map i’r dde:



- 5.11.5. Crybwyllwyd gan rhai o ymatebion bod y cynnig yn golygu: nifer mwy o ddisgyblion yn teithio’n bellach i’r ysgol (annheg yn eu barn nhw), costau cludiant uwch ac effaith negyddol ar ôl-troed carbon y Cyngor. Mae’r Cyngor yn cydnabod bydd mwy o ddisgyblion yn teithio’n bellach i’w safle addysgol, ond ni fydd unrhyw ddisgybl yn teithio tu hwnt i’r polisi Sirol/Cenedlaethol. Wrth gyfeirio at ôl-troed carbon a chostau cludiant, mae angen ystyried bydd 4 safle addysgol yn cael eu cau. Golyga hyn arbedion refeniw net o £255,625 (ar ôl tynnu costau cludiant), a fydd rhai o’r safleoedd bydd yn parhau yn cael ei uwchraddio i fod yn well yn amgylcheddol. Golyga hyn drefn fwy effeithiol i gymharu â’r drefn bresennol.

- 5.11.6. Nododd rhai bod cynllunio i gael plant yn teithio o safle i safle yn ddyddiol yn annerbyniol. Nid yw’n fwrriad i disgyblion teithio o un safle i’r llall yn ddyddiol. Yn achlysurol gwelid bod manteision addysgol i gwneud y defnydd o adnoddau ar safleoedd eraill e.e. disgyblion hynaf y sector gynradd yn mynychu gwersi gwyddoniaeth yn labordai safle uwchradd Y Gader.

5.12 Materion Llywodraethu, Mynediad a Cyllid

- 5.12.1. Roedd pryder na fyddai’r cymunedau i gyd yn cael eu cynrychioli’n deg ar y corff llywodraethol cysgodol. Nododd rhai nad oedd digon o wybodaeth ynglŷn â sut fyddai’r corff yn gweithio ar draws dalgyrch gyfan. Nododd un ymatebydd bryder bod y cynnig yn dileu nifer sylweddol o lywodraethwyr ac yn gadael un corff, sef corff yr uwchradd i redeg addysg y dalgyrch.

- 5.12.2. Nid corff llywodraethol yr ysgol uwchradd fydd yn rhedeg yr ysgol arfaethedig - bydd corff llywodraethol cysgodol newydd yn cael ei greu. Bydd y corff llywodraethol cysgodol yn cael ei greu allan o aelodau presennol llywodraethwyr yr ysgolion. Yn unol â chanllawiau, ragwelir bydd 19 o lywodraethwyr a’r pennaeth ar y corff llywodraethol cysgodol a byddai’r rhain yn gallu dod o holl ardaloedd y dalgyrch.

- 5.12.3. Nododd un ymatebydd nad oedd yn glir yn y ddogfen ymgynghorol beth ddylai disgyblion all-dalgylch sydd eisiau mynychu'r safle uwchradd gwneud i gael mynediad i'r ysgol ddilynol dalgylchol ym mlwyddyn 7. Er eglurder, bydd angen i'r disgyblion yma wneud cais mynediad i'r Awdurdod yn unol â'r drefn bresennol.
- 5.12.4. Cyfeiriodd rhai o ymatebwyr at y rhwyd-diogelu staffio gan amlygu'r ffaith bod Ysgol Ieuan Gwynedd yn derbyn mwy o warchodaeth i gymharu ag Ysgol Brithdir. Wrth edrych ar ragamcanion gwahanol safleoedd cynradd yr ysgol ddilynol dalgylchol, mae rhai o ohebwyr yn rhagweld bydd 2 o'r safleoedd yn parhau yn y rhwyd-diogelu staffio.
- 5.12.5. Mae dyraniad Ysgol Ieuan Gwynedd cyfateb i £10,616 y disgybl. Mae hyn yn cynnwys gwarchodaeth lleiafswm staffio gwerth £45,201 a dyraniad o £29,750 ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol). Wrth sefydlu fformiwla dyrannu Ysgol Ddilynol byddwn yn ystyried yr angen i ddarparu dyraniad aml safle, i sicrhau darpariaeth addysg ar draws y dalgylch.

5.13 Y Broses Ymgynghori Statudol - Cyfredol a'r Broses yn 2011

- 5.13.1. Y brif neges o'r dalgylch yw bod ad-drefnu wedi bod yn cael ei gynnal ers cryn amser a bod trigolion yn siomedig bod y diffyg gweithrediad hyd yma yn golygu bod trafodaethau'n parhau. Cyfeiriodd nifer at yr ymgynghoriad statudol yn 2011 a bod yn bwysig i'r Cyngor sicrhau bod y dewis cywir yn cael ei wneud y tro hwn er budd y dalgylch ac enwedig y disgyblion. Cwestiynodd rhai'r broses o sut y gwneir penderfyniadau
- 5.13.2. Mynegodd rhai ymatebwyr eu bod yn falch o'r cyfle i rhoi eu barn a bod y ddogfen ymgynghorol statudol wedi bod yn gynhwysfawr.
- 5.13.3. Roedd rhai o'r farn mai camgymeriad oedd dangos gwybodaeth am ysgolion OM Edwards a Penybryn, Tywyn yn ystod y diwrnodau agored am eu bod yn ystyried y buddsoddiad yn nalgylch Y Gader yn sylweddol llai na'r hyn a wariwyd yn yr ysgolion hynny.
- 5.13.4. Heblaw am luniau sydd yn rhan o'r ddogfen ymgynghorol ac yn gysylltiedig â safleoedd arfaethedig yr ysgol ddilynol, yr unig luniau oedd yn y diwrnodau agored oedd yn gysylltiedig ag Ysgol OM Edwards ac Ysgol Penybryn, Tywyn. Derbyniodd Ysgol OM Edwards buddsoddiad o £1miliwn i'w huwchraddio. Bydd y datblygiad yma'n debyg iawn i'r hyn bydd yn cael ei wneud yn Llanelltyd (£1.02miliwn buddsoddiad) a dyma pam ystyrir o ddiddordeb yn y diwrnodau agored. Derbyniodd Ysgol Penybryn, Tywyn buddsoddiad o £1.47 miliwn i'w huwchraddio. Mae safle Cynradd Dolgellau yn derbyn buddsoddiad o £2.7miliwn a gall y gwelliannau ym Mhenybryn rhoi syniad o'r math o newidiadau bydd ar gynnig yno. Dyma pam ystyrir o ddiddordeb yn y diwrnodau agored.

5.14 Opsiynau Amgen

- 5.14.1. Prin oedd yr opsiynau amgen a gynigwyd. Nododd un ymatebydd eu bod yn ffafrio model 3 y rhestr hir, cynigodd ymatebydd arall y posibilrwydd o symud disgyblion blwyddyn 6 y dalgylch i Ysgol Y Gader. Y prif opsiwn amgen cynigwyd oedd yn gysylltiedig â'r safleoedd dewiswyd. Mae nifer o ymatebwyr yn cynnig Brithdir fel safle i'r ysgol ddilynol dalgylchol yn hytrach na safle Rhydymain.
- 5.14.2. Mae'r Cyngor wedi gwneud cryn waith ymchwil ar yr opsiwn o ehangu safle Brithdir, yn wir roedd y safle yn rhan o'r cynnig blaenorol i Ddwyrain dalgylch Y Gader. Yn anffodus oherwydd ffactorau drafodwyd uchod yn rhan 5.7 uchod nid yw'n bosib datblygu gerbron safle Ysgol Brithdir, felly nid yw'n opsiwn posib bellach.

6. I GRYNHOI

- 6.1 Argymhellir rhyddhau rhybuddion statudol ar y cynnig i gau ysgolion dalgylch Y Gader a sefydlu un ysgol ddalgylch ddilynol 3-16 cymunedol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy, Llanelltyd a Friog.
- 6.2 Mae'r argymhelliad yma yn dilyn **ystyriaeth o ystod eang o fodolau posib**. Crynhowyd y cynigion yma i **restr hir o 8 model posib, a gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn** wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn **ffactorau penodol**. Defnyddiwyd ffactorau'r strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*', ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Y Gader a ffactorau perthnasol eraill. Roedd y ffactorau yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:
- Ansawdd yr Addysg
 - Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
 - Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion
 - Amgylchedd Dysgu – ansawdd ac addasrwydd adeiladau
 - Statws / Categori Ysgol
 - Arweinyddiaeth a staffio
 - Y Gymuned
 - Yr Iaith Gymraeg
 - Ardrawiad Cydraddoldeb
 - Adnoddau Ariannol
 - Ffactorau Daearyddol
- Mae'r gwerthusiad opsiynau llawn yma eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cabinet am ystyriaeth ym Medi 2014.
- 6.3 Fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau yma, defnyddiwyd hefyd casgliadau **asesiadau effaith Cymunedol , leithyddol a Chydraddoldeb**. Mae'r asesiadau yma a holl dogfennaeth cefndirol y cynnig ar gael yn atodiad 1 yr adroddiad ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynigion. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisiâu a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa. Ystyrir felly fod canfyddiadau yr asesiadau yn parhau yn gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad.
- 6.4 **Cwblhawyd rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghrymu** ac ystyriwyd eu sylwadau, ynghyd a'r gwerthusiad opsiynau a'r asesiadau effaith cyn penderfynu cymeradwyo cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol ar y cynnig.
- 6.5 Yn dilyn **ystyried holl sylwadau** derbyniwyd yn ystod y **cyfnod ymgynghori statudol, mae'r Cyngor dal o'r farn fod y cynnig ymgynghorwyd arno dal i gynnig yr opsiwn orau ar gyfer dyfodol addysg yn nalgylch Y Gader**. Mae dadansoddiad o'r sylwadau derbyniwyd yn cael sylw yn adran 5 ac atodiad 2 yr adroddiad yma, ac mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion.
- 6.6 Mae'r cynnig yn parhau fel yr opsiwn ffafriedig am nifer o resymau. Trwy sefydlu ysgol ddilynol dalgylchol 3-16, gellir **mynd i'r afael â nifer o'r heriau** a geir ar hyn o bryd yn nalgylch y Gader, creu **nifer o wahanol gyfleoedd i ddatblygu ar sylfaen ansawdd addysg a dysgu** presennol y dalgylch, yn ogystal â chynnig hyblygrwydd mewn nifer o ffyrdd i **greu darpariaeth addysgol gadarn a chynaliadwy i'r dyfodol**. Rhai o buddion y cynnig yw ei fod yn:
- **Gwella safonau addysg** ar draws y dalgylch wrth alluogi hyblygrwydd ar draws holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol
 - Cael **effaith ar faint ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau**
 - **Gwella cyflwr a safon stad ysgolion** y dalgylch wrth **fuddsoddi £4.34miliwn** ar uwchraddio ac ymestyn tri safle, wrth wario ôl-groniad cynnal a chadw ar dri safle arall

- Galluogi **system uwch reoli modern newydd**, bydd yn **rhyddhau'r pennaeth o'r dosbarth**, yn cynnig **hyblygrwydd gyda'r strwythur staffio** ar draws y sectorau, yn darparu cyfleoedd gyrfa newydd
- Sicrhau bod **safle addysg o fewn pellter rhesymol** i holl ddisgyblion y dalgylch
- **Lleihau llefydd gweigion** y dalgylch
- Rhoi oddeutu **£255,625 o arbedion refeniw**, ac yn rhesymoli amrediad cost y disgybl yn y dalgylch
- Rhoi'r **cyfle gorau** i geisio **cyflawni'r polisi iaith**, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio dysgu mwy byddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch

7. CAMAU NESAF

- 7.1 Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn - bydd angen cyhoeddi rhybuddion statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).
- 7.2 Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Bydd rhybuddion yn cael eu cyhoeddi fel bo modd i'r Cyngor monitro'r ysgolion ac ymateb i unrhyw sefyllfa argyfyngus yn ystod y cyfnod trosiannol cyn y dyddiad gweithredu arfaethedig o Fedi 2017.
- 7.3 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).
- 7.4 Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymwybodol o gais yr Eglwys yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhagymgyngori a bydd ymdrech yn parhau i gael ei wneud i gyd-amserlennu prosiectau dalgylch Y Gader a'r Berwyn.
- 7.5 Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol:

Camau'r Daith	Amserlen Amlinellol
Adroddiad Cabinet yn dilyn ymgynghoriad statudol	Ionawr 2015
Cyhoeddi Rhybuddion Statudol a chyfle i ymgynghorai wrthwynebu	Chwefror – Ebrill 2015
Penderfyniad Terfynol gan Gabinet y Cyngor (posib i'r cynnig cael ei atgyfeirio i Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar ôl y penderfyniad yma)	Mai 2015
Gall y mater gael ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru	7 mis gyda'r Llywodraeth
Cychwyn Gwaith Adeiladu	Ebrill 2016
Agor Yr Ysgol Ddilynol Dalgylchol	1 Medi 2017

8. ARGYMHELLION

8.1 Argymhellir felly:

- i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu Ysgol Dalgylch Dilydol 3-16 cymunedol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog, ar 1 Medi 2017.
- ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.
- iii. Yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad yn gysylltiedig â phwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddynt gael eu penodi o flaen amser, cymeradwyo cyllido pennaeth yr ysgol ddilydol dalgylchol o arbedion y cynllun am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2017.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Prif Weithredwr:

"Fel sy'n amlwg o'r adroddiad sydd gerbron, mae'r newid sydd dan sylw yma yn un sylweddol ac uchelgeisiol. O ganlyniad, mae amrywiaeth o ystyriaethau gwahanol yn y drafodaeth, pob un ohonynt o'r pwys mwyaf i'r sawl sydd yn teimlo'n gryf am yr elfen dan sylw. Rôl y Cabinet yn hyn y beth yw ceisio dal yr ystyriaethau hynny ynghyd a phwyso a mesur y cyfan ohonynt er mwyn gosod cyfeiriad ymlaen."

Credaf bod yr adroddiad, a'r argymhellion sydd wedi ei gynnwys ynddo, yn gwneud hynny ac yn cynnig llwybr sydd yn rhoi cyfle arbennig i wireddu deilliannau'r weledigaeth a nodir yn rhan 1.6 o'r adroddiad."

Y Swyddog Monitro:

"Mae datblygu'r cynnig yma wedi bod yn destun mewnbwn manwl gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Cynhaliwyd proses ymgynghori eang a manwl yn unol a'r Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Mae'n ofynnol i'r Cabinet wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig gloriannu canlyniadau yr ymgynghoriad yn erbyn y ffactorau perthnasol eraill a adroddir arnynt yn yr adroddiad a'r atodiadau."

Y Pennaeth Cyllid:

"Mae fy sylwadau ar yr achos busnes a gymeradwywyd gan y Cabinet ym Medi 2014 yn parhau'n ddilys. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn seiliedig ar dystiolaeth a gwaith trylwyr wrth geisio symud ymlaen yn briodol gydag adolygu trefniadaeth ysgolion yn dalgylch Y Gader, ac rwyf yn parhau'n fodlon fod y ffigyrau ariannol sydd yn yr adroddiad unai yn wir gostau cywir, neu yn amcangyfrif teg, lle'n briodol. Hynny yw, byddai lleihau nifer y safleoedd wrth sefydlu ysgol ddilydol aml-safle yn arwain at arbediad refeniw blynyddol o leiaf £255,625. Roedd yr arbediad net yma wedi'i gyfrifo ar ôl neilltuo symiau darbodus o gyllideb ar gyfer ariannu ffactor aml-safle a chost cludiant."

O safbwynt ariannol, y prif newid o sylwedd yn yr adroddiad yma o'i gymharu â'r achos busnes yw'r cais i gyllido swydd pennaeth yr ysgol ddilydol dalgylchol am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2017. Gan mai cost unwaith ac am byth fyddai hyn, yn y cyfnod cyn dechrau gwireddu'r arbedion, mae ffyrdd priodol ar gael i ddelio â'r mater heb effeithio ar gyflawniad y cynllun.

Hoffwn atgoffa'r Cabinet y bydd sicrhau arbediad o'r prosiect yma yn helpu i isafu unrhyw doriadau gyllidebol yn ysgolion Gwynedd yn yr hinsawdd ariannol ddigysail cyfredol, gan ei fod yn ymddangos yn gynyddol debygol na fydd amddiffyniad i'r gyllideb ysgolion yn y blynyddoedd nesaf."

ATODIADAU

Atodiad 1	<p>Mae holl ddogfennaeth y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol, y pecyn cefndirol cysylltiedig, dogfennau ymgynghori a holiaduron plant a phobl ifanc, ar gael ar wefan y Cyngor yn www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion. Mae'r pecyn cefndirol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013• Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013• Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd• Cynllun Blaenoriaethau - Maes Trefniadaeth Darpariaeth Addysg• Dogfen Ffydd mewn Addysg Llywodraeth Cymru• Agenda a Chofnodion Cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch Y Gader• Pecyn Ystadegol• Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol• Adroddiad Asesiad Effaith Cymunedol• Asesiad Cydraddoldeb• Asesiad o'r Angen am Wahanol Fathau o Ysgolion• Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 16 Gorffennaf 2013• Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 17 Rhagfyr 2013• Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 16 Medi 2014
Atodiad 2	Dadansoddiad ac ymateb y Cyngor i sylwadau derbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol
Atodiad 3	Dadansoddiad yr ymgynghoriad plant a phobl ifanc gan hwylusydd arbenigol

DOGFEN GEFNDIROL

- Mae'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol (gyda rhai wedi eu cyhoeddi'n llawn, rhai heb fanylion personol a rhai heb eu cyhoeddi yn unol â dymuniad yr ymatebwyr) ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion